**GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU**
Nodiadau cyfarfod – 17 Gorffennaf 2017, Merthyr Tudful

**Yn bresennol**

**Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| Andrew Jacobs (AJ) | Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Charlotte Anscombe (CA) | Yr Uned Cynhwysiant Ariannol |
| Paul Neave (PN) | Yr Uned Cynhwysiant Ariannol |
| Sally Hunt (SH) | Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant |

**Aelodau / Yn dirprwyo dros aelodau**

| | |
|---|---|
| Farida Aslam (FA) | Cymdeithas Tai Sir Fynwy |
| Jonathan Brenchley (JB) | Cysylltiadau Corfforaethol Cymru a Gorllewin Lloegr, Banc Barclays |
| Danielle Cope (DC) | Gweithredu dros Blant |
| Charles Counsell (CC) | Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol |
| Elizabeth Emmons (EE) | Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru |
| Leanne Herberg (LH) | Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro |
| Helene Hayes (HH) | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Jocelle Lovell (JC) | Hyrwyddwr Cynhwysiant Ariannol, Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Sean O'Neill (SO'N) | Plant yng Nghymru |
| Lee Phillips (LP) | Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol |
| Graham Roberts (GR) | Yr Adran Gwaith a Phensiynau (Rhaglen Credyd Cynhwysol) |
| Jayne Simpson (JS) | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (yn cynrychioli Tony Kirk) |
| Geraint Willington (GW) | Consortiwm Addysg |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Jan Morgan (JM) | Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru |

**Ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Will Atkinson (WA) | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Ian Albert (IA) | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Rhys Evans (RE) | Aelod annibynnol |
| Lisa Hayward (LH) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Hannah Williams (HW) | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (yn cynrychioli buddiannau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru) |
| John Mason (JM) | Addysg (Pynciau Craidd – Cwricwlwm) |
| Iwan Williams (IW) | Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Semele Mylona (SM) | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru |
| Karl Thomas (KT) | Yr Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru |
| Pat McCarthy (PMc) | Addysg (Pynciau Craidd – Cwricwlwm) |

## 1. *Croeso, cofnodion a materion yn codi o'r cofnodion*

1.1 Croesawodd AJ yr aelodau i bedwerydd cyfarfod y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol gan ddiolch iddynt am fod yn bresennol. Estynnodd AJ groeso arbennig i Charles Counsell, Prif Weithredwr newydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Geraint Willington a oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf, a Helene Hayes a oedd wedi dychwelyd i'r grŵp yn dilyn cyfle i gael secondiad.

1.2 Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

1.3 Yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol, cafwyd trafodaeth gychwynnol er mwyn asesu dichonoldeb cynnal Wythnos Gallu Ariannol Cymru ym mis Tachwedd 2018. Cafodd cyfarfod cyntaf yr is-grŵp er mwyn trafod a chynllunio'r digwyddiad ei gynnal ar 13 Mehefin a disgwylir y bydd ail gyfarfod yn cael ei gynnal ym mis Medi.

1.4 Mae is-grŵp Addysg Ariannol a Diwygio'r Cwricwlwm wedi'i sefydlu hefyd er mwyn helpu i lywio gwaith y rhwydwaith o Ysgolion Arloesi ar y dulliau lefel uchel o ymdrin â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad unigol, ac yn benodol sut y bydd addysg ariannol yn cael ei chynrychioli yn y cwricwlwm newydd, dan y Meysydd Dysgu a Phrofiad ar gyfer Mathemateg ac Iechyd a Lles.

## 2. *Diweddariad a thrafodaeth ynghylch fersiwn ddrafft y Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol, gan gynnwys y prif heriau a allai atal cynnydd*

2.1 Rhoddodd AJ drosolwg o'r cynnydd a wnaed hyd yma ers i'r Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Dywedodd fod llawer o waith wedi'i gyflawni eisoes, sydd wedi'i gofnodi yn fersiwn ddrafft weithredol y Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol, a diolchodd i'r aelodau am eu diweddariadau. Fodd bynnag, cydnabu hefyd fod llawer o waith da'n cael ei gyflawni ym maes cynhwysiant ariannol, nad yw'n cael ei adlewyrchu'n llawn yn y Cynllun Cyflenwi. Mae angen rhoi sylw i'r gwaith hwnnw ac archwilio llwybrau newydd, er enghraifft rhwydwaith cynghori Cartrefi Cymunedol Cymru er mwyn cofnodi gweithgareddau ar draws y sector tai cymdeithasol. Cydnabu AJ y gallai rhai camau gweithredu fod yn anos na'i gilydd i'w cyflawni a'u cofnodi.

2.2 Soniodd AJ fod nifer o adroddiadau'n ymwneud â'r agenda Cynhwysiant Ariannol wedi'u cyhoeddi yn ddiweddar. Cafodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17 ei gyhoeddi ar 28 Mehefin 2017. Roedd yn cynnwys ambell gwestiwn ynglŷn â'r gallu i reoli biliau ac ynglŷn â mynediad i wasanaethau cyngor ynghylch dyled. Dywedodd 66% o'r sawl a holwyd nad oedd rheoli biliau'n achosi unrhyw anhawster iddynt ond dywedodd 32% fod rheoli biliau'n achosi rhai anawsterau iddynt. O safbwynt digidol mae mwy o bobl yn defnyddio'r rhyngrwyd; gostyngodd canran y bobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd o

19% yn 2015 i 15% yn yr arolwg diweddaraf. http://llyw.cymru/statistics-and-research/national-survey/?tab=el_home&topic=wellbeing_finances&lang=cy

2.3 Cafodd yr Adolygiad Blynyddol cyntaf o Gynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor Llywodraeth Cymru ei gynnal yn ddiweddar gan Rwydwaith Cynghori Cenedlaethol Cymru, a chyflwynwyd argymhellion i Lywodraeth Cymru. Mae'r adolygiad yn nodi'r cynnydd a wnaed ers i'r cynllun gael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2016. http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/advice-services/information-and-advice-action-plan/?lang=cy

2.4 Cafodd adroddiad Estyn – Rheoli arian: Addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru – ei gyhoeddi ar 11 Gorffennaf. https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/rheoli-arian-addysg-ariannol-mewn-ysgolion-cynradd-ac-uwchradd-yng-nghymru

2.5 Cafodd adroddiad Wavehill ar fodelu'r angen am gyngor ar faterion lles cymdeithasol ei gyhoeddi ar 27 Mehefin. Roedd y canfyddiadau'n nodi bod yr angen mwyaf i'w weld yn bennaf mewn ardaloedd trwchus eu poblogaeth, er enghraifft yn Abertawe a Rhondda Cynon Taf. http://llyw.cymru/docs/caecd/research/2017/170627-modelling-need-advice-social-welfare-topics-cy.pdf

2.6 Soniodd AJ am yr adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree, *'Does money affect children's outcomes? An update'*, sy'n cadarnhau bod arian yn bwysig a bod angen ei ystyried os ydym am wella canlyniadau i blant. Esboniodd LP gefndir yr adroddiad sy'n adeiladu ar adolygiad a gynhaliwyd yn 2013 ac sy'n cynnwys data o 27 o astudiaethau a gyhoeddwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod plant o aelwydydd ag incwm isel yn ffynnu i raddau llai na'u cymheiriaid mwy cyfoethog yng nghyswllt llawer o ganlyniadau bywyd, megis addysg neu iechyd, a hynny'n syml iawn oherwydd eu bod yn dlotach. Yr hyn sy'n arwyddocaol yw bod yr adroddiad wedi canfod bod effaith fesuradwy cynyddu incwm teulu yn debyg o ran maint i effaith fesuradwy buddsoddi mewn addysg.

2.7 Agorodd AJ drafodaeth ynghylch y Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol gan wahodd sylwadau gan y grŵp ynghylch y tair prif thema.

2.8 *Thema 1 – Mynediad at gredyd a gwasanaethau ariannol fforddiadwy*
Rhoddodd AJ ddiweddariad ynghylch Rhaglen Cynhwysiant Ariannol LINK ac esboniodd fod 5 maes wedi'u datrys ers y cyfarfod diwethaf, sy'n golygu bod nifer y meysydd sydd heb eu datrys wedi gostwng o 190 i 185. Mae ymarfer yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i nodi'r Ardaloedd Cynnyrch mwyaf addas lle gellid lleoli peiriannau arian, y gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim, mewn clystyrau lle ceir diffyg darpariaeth. Mae map yn cael ei lunio gan Dîm Cartograffeg Llywodraeth Cymru i sicrhau'r effaith fwyaf posibl mewn ardal clwstwr.

2.9 Esboniodd LH y bydd fersiwn o *Change Account*, a fydd wedi'i brandio gan Undebau Credyd ac a fydd yn cynnwys 'waled' gyllidebu, ar gael drwy Undebau Credyd cyn bo hir er mwyn cynnig gwasanaethau ar gyfer y sawl nad oes ganddynt gyfrif banc. Bydd yn cynnwys mwy o gyfleusterau na'r cerdyn rhagdalu a gynigir ar hyn o bryd, heb y problemau y mae rhai aelodau'n dod ar eu traws gyda chyfrifon banc. Gallai'r cynnyrch helpu aelodau sy'n ei chael yn anodd cyllidebu. Dywedodd FA ei bod yn gwybod am rai Undebau Credyd a oedd yn eu defnyddio, ond bod diffyg ymwybyddiaeth o gardiau rhagdalu'n gyffredinol a bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gyndyn o'u defnyddio oherwydd yr elfen ffïoedd.

Rhoddodd CA ddiweddariad ynghylch y cyllid a ddyfarnwyd i Undebau Credyd ym mis Mawrth 2017, ac esboniodd fod Undebau Credyd yn dechrau anfon data ynghylch eu prosiectau wrth iddynt gychwyn. Dywedodd LH fod rhai Undebau Credyd yn ei chael yn anodd llenwi eu swyddi newydd.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol ynghylch 'cyfrifon banc heb ffi' ac ynghylch beth yr oedd y term hwnnw'n ei olygu mewn gwirionedd. Roedd yn amlwg bod rhywfaint o ddryswch ynghylch p'un a oedd yn golygu na fyddai unrhyw daliadau o gwbl yn cael eu codi ynteu a oedd hefyd yn golygu na fyddai cost fisol ynghlwm wrth y cyfrif. Dywedodd LP nad yw'r 'cyfrifon banc heb ffi' newydd a gyflwynwyd y llynedd yn codi taliadau ond bod y derminoleg yn gallu bod yn ddryslyd ac na fyddai modd i bawb gael y math hwnnw o gyfrif. Dywedodd JB fod cyfleusterau bancio am ddim ar gael yn y DU ond, os ydych yn gwneud cais am gyfrif rhad ac am ddim, bod rhai ohonynt yn codi ffi; er enghraifft mae Lloyds yn codi ffi am ddiogelu cardiau. **Gweithredu** JB i ofyn i'w gydweithwyr sut y maen nhw'n deall y diffiniad o gyfleusterau bancio rhad ac am ddim. Dywedodd FA fod tystiolaeth o achosion lle'r oedd rhai pobl wedi methu â chael cyfrifon/benthyciadau gan rai Undebau Credyd os oedd yr Undebau Credyd o'r farn eu bod yn achosion risg uchel. Esboniodd LH fod pob Undeb Credyd yn cael ei redeg yn wahanol a bod yn rhaid iddynt fenthyca arian yn gyfrifol er mwyn diogelu asedau'r aelodau. Dywedodd HH fod tystiolaeth yn adroddiadau'r Gronfa Cymorth Dewisol, sy'n awgrymu y ceir patrymau lle caiff ceisiadau eu gwneud dro ar ôl tro am arian drwy Daliadau Cymorth mewn Argyfwng.

2.10 *Thema 2 – Mynediad at wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled*
Esboniodd AJ fod y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol wedi'i gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi ar 22 Mehefin, a bod y Bil yn ymdrin â'r potensial i ddatganoli cyllid ar gyfer cyngor ynghylch dyled. Dywedodd y bydd trafodaethau rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau/y Trysorlys a'r gwledydd datganoledig yn parhau er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael cytundeb ariannu teg ar sail angen. Byddai diweddariadau pellach ynghylch hynny'n cael eu darparu yn y cyfarfod nesaf. Esboniodd CC fod y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn croesawu'r ffaith bod y Bil wedi'i gyflwyno, a nododd ei gynnwys. Bwriad y Bil yw sicrhau bod siwrnai'r cwsmer ar draws pob agwedd ar arweiniad ariannol yn haws ac yn fwy effeithlon. Bydd gan y corff newydd rôl strategol i'w chwarae ym maes gallu ariannol a dyled. Nododd mai'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n arwain gwaith yn ymwneud â'r Bil, ac mai'r Adran honno fyddai'n noddi'r corff newydd pan fyddai'n dod i fodolaeth.

2.11 Estynnodd AJ groeso i PN i'r cyfarfod gan esbonio ei fod wedi bod yn ei swydd ers deufis. Dywedodd PN fod y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol wedi cwblhau ei adolygiad blynyddol cyntaf, bod yr adolygiad yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd ac y byddai ar gael ar y wefan yn fuan. Esboniodd fod gwaith ar y Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar y gweill ac y byddai manyleb tendr yn cael ei datblygu er mwyn penodi contractwr i ddechrau gweithredu'r Fframwaith yn raddol, drwy weithio gyda Deiliaid Safonau presennol i archwilio'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn i'w safonau gael eu hachredu ar draws y Fframwaith. Dywedodd ei fod yn awyddus i gynnwys awdurdodau lleol yn y broses er mwyn llywio'r modd y caiff cyngor a gwybodaeth eu darparu yn y dyfodol, o gofio bod gwasanaethau'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol. Mae gan staff rheng flaen fynediad i gyrsiau ynghylch hawliau lles, mae gan rai cymdeithasau tai dimau Cynhwysiant Ariannol penodedig ac maent yn darparu cyngor ynghylch cyllidebu a blaenoriaethu i aelwydydd. Esboniodd PN fod yr ymarfer mapio darparwyr wedi stopio i ryw raddau ond bod Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol wrthi'n trafod â DEWIS Cymru er mwyn nodi a chyflwyno atebion byrdymor i bryderon ynghylch gwirio gwybodaeth darparwyr am y gwasanaethau a ddarperir ac er mwyn mapio darparwyr yn rhannol gyda'r bwriad o sicrhau bod y map ar gael ym mis Medi 2017. Dywedodd JL fod data o ansawdd da iawn ar gael pe bai modd troshaenu amrywiaeth o ffynonellau data er mwyn cael darlun mwy cyflawn o'r ddarpariaeth.

2.12 Dywedodd AJ fod y Cynllun Cyflogadwyedd newydd yn cydnabod bod cynhwysiant ariannol yn bwysig er mwyn cynnal cyflogaeth, cynyddu incwm aelwydydd a mynd i'r afael â'r 'premiwm tlodi'. Mae cydweithwyr ym maes Cymunedau am Waith wedi bod yn cyfeirio pobl at ddarparwyr er mwyn gwella eu sgiliau ariannol i'w helpu i fod yn barod ar gyfer dechrau a chynnal cyflogaeth. Esboniodd AJ fod Amelia John yn un o 3 o uwch-weision sifil sy'n ymwneud â nifer o brosiectau Braenaru sy'n cefnogi gwaith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De. Mae cynhwysiant ariannol a chynhwysiant digidol yn faterion a fydd yn ymddangos yn rhan o'r gwaith ymgysylltu a wneir â chymunedau drwy waith y Tasglu Gweinidogol. Dywedodd SH y byddai'r cynllun cyflawni ar gyfer y Tasglu yn cael ei gyhoeddi'n nes ymlaen yn yr wythnos.

2.13 *Thema 3 – Meithrin dealltwriaeth a gallu ariannol*
Nododd AJ fod ymrwymiad 15 yn y Cynllun Cyflenwi Cynhwysiant Ariannol yn cyd-fynd â'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gallu Ariannol y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, sy'n cynnwys 77 o gamau gweithredu'n ymwneud â 5 grŵp penodol, gan gynnwys Plant/Pobl Ifanc a Phobl Hŷn. Esboniodd LP fod camau gweithredu'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cael eu diweddaru bob chwarter ac yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Cyflenwi.
Dywedodd fod proses ffrwd 1af y Panel Beth Sy'n Gweithio wedi dyrannu £1.7 miliwn i brosiectau sy'n benodol i Gymru. Dywedodd LP fod llawer o waith yn cael ei wneud yn y fforymau Gallu Ariannol, sy'n cofnodi beth sy'n digwydd

yng Nghymru. Bydd dogfen sy'n cofnodi astudiaethau achos yn ymddangos cyn bo hir, a fydd yn helpu i nodi a rhannu gweithgareddau da.

2.14 Rhoddodd AJ ddiweddariad ynghylch Cynhwysiant Digidol gan esbonio bod y ddogfen Sicrhau Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, wrthi'n cael ei diweddaru. Dywedodd GW fod 62 o grantiau wedi cael eu rhoi ar gyfer gwaith yr Ysgolion Arloesi, y byddai'n gweithio gyda PMc ar yr agenda hon ac y byddai diweddariad pellach yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf. Byddai'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol hefyd yn hanfodol o safbwynt symud yr agenda ar gyfer cynhwysiant ariannol yn ei blaen.

2.15 Rhoddodd GR ddiweddariad ynghylch y broses o weithredu Credyd Cynhwysol yng Nghymru, a phwysigrwydd darparu cymorth cyllidebu wrth baratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol. Dywedodd fod disgwyl i Gredyd Cynhwysol fod wedi'i gyflwyno ledled Prydain erbyn 2018. Mae Credyd Cynhwysol ar waith erbyn hyn yn Nhorfaen.
Bydd y gwaith o gyflwyno Credyd Cynhwysol ar draws Prydain yn parhau fesul pum canolfan waith y mis tan fis Gorffennaf. Yna, bydd y broses yn cyflymu a bydd 30 o ganolfannau gwaith yn mynd drwy'r broses bontio. Bydd canolfannau gwaith yn datblygu cynllun er mwyn adnabod cleientiaid y mae angen cymorth arnynt, ee cleientiaid y mae eu hawliadau'n ymwneud ag anghenion cymhleth. Yn Sir y Fflint, sef yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru â chanolfannau gwaith sydd wedi bod yn darparu Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol, cafwyd 70 o atgyfeiriadau ar gyfer Cymorth Cyllidebu Personol yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mehefin 2017. Mae hynny'n gynnydd sylweddol o gymharu â'r atgyfeiriadau a gafwyd yn y Gwasanaeth Byw Credyd Cynhwysol, lle cafwyd 39 yn unig o atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017. Mae gan lawer o'r bobl a gafodd eu hatgyfeirio ar gyfer Cymorth Cyllidebu Personol broblemau sylfaenol yn ymwneud â dyled. Dywedodd FA fod staff yr Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n adnabod pobl y mae angen Cymorth Cyllidebu Personol arnynt a bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn dechrau adnabod pobl y mae angen cymorth arnynt, ee cyngor ynghylch dyled. Dywedodd GR fod trefniadau talu amgen ar gael i bobl sy'n cael anhawster rheoli eu taliad Credyd Cynhwysol. Dywedodd HH fod tystiolaeth o adroddiad Cyngor ar Bopeth ynghylch Credyd Cynhwysol wedi dangos bod gwasanaeth Cyngor ar Bopeth wedi cynorthwyo 30,000 o bobl ledled y DU gyda phroblemau'n ymwneud â Chredyd Cynhwysol, a bod ar lawer ohonynt angen lefel uwch o gymorth oherwydd heriau ariannol sylweddol yr oeddent yn eu hwynebu'n bennaf gan eu bod yn gorfod aros 6 wythnos am fuddion Credyd Cynhwysol.

## *3. Digwyddiadau yn y dyfodol, gan gynnwys yr Wythnos Gallu Ariannol a'r digwyddiad Trechu Tlodi yng Nghymru*

3.1 Agorodd AJ y drafodaeth a gofynnodd am unrhyw farn ynghylch yr Wythnos Gallu Ariannol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2017. Dywedodd LP ei bod wedi trefnu bod digwyddiad yn cael ei gynnal yn y Senedd yn ystod amser cinio cyn y Cyfarfod Llawn er mwyn ei gwneud yn bosibl i amrywiaeth o weithgareddau gael eu cynnal ac er mwyn annog cynulleidfa ehangach i fod

yn bresennol. Mae'r digwyddiad yn cael ei noddi gan Bethan Jenkins AC. Dywedodd FA ei bod yn barod i weithio gyda'r is-grŵp a chyfrannu gwybodaeth ar ran Cartrefi Cymunedol Cymru. **Gweithredu** LP i anfon y wybodaeth ddwyieithog am yr Wythnos Gallu Ariannol ar gyfer aelodau'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol, er mwyn i JM ei hanfon allan drwy eu rhwydweithiau (wedi'i gwblhau).

3.2 Cytunwyd yn y cyfarfod y byddai SH neu un o'i chydweithwyr yn mynychu digwyddiad y Fforwm Polisi Trechu Tlodi yng Nghymru ac yn adrodd yn ôl i'r grŵp maes o law.

***4. Y camau nesaf ac unrhyw fater arall***

4.1 Diolchodd AJ i aelodau'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol am eu cyfraniadau a'u sylwadau adeiladol. Mae'n debygol y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ganol mis Tachwedd.

Jan Morgan

Gorffennaf 2017